

## Cynllun Strategol 2021 - 2030

**5. Cynnal ystod o weithgareddau wedi'u trefnu ar ein safle, gan gynnwys ymchwil a monitro, gwaith cadwraeth, profiad natur, gweithgareddau diwylliannol ac addysgol; i gynnal rhaglenni ar gyfer plant ysgol, ieuenctid ac oedolion o grwpiau penodol, gan gynnwys y rhai nad ydyn nhw fel rheol yn cysylltu â natur.**

**5.1. Cynnig raglenni addysgol a phrofiad natur i ysgolion cynradd o ardal leol safle'r prosiect: wedi'u datblygu a'u cyflwyno mewn partneriaeth ag ysgolion. I gynnwys sesiynau yn yr ysgol ac ar y safle.**

### **Statws Cyfredol:**

Mae 3 grŵp y flwyddyn yn cychwyn ar y rhaglen ysgolion cynradd tair mlynedd, felly rydym yn gweithio gyda 9 grŵp ysgol ar yr un pryd. Darperir cludiant i'r safle gan y prosiect. Pob un wedi'i ariannu gan SMS.

#### *Blwyddyn 1:*

Hydref: 1 diwrnod yn yr ysgol, ac yna 1 diwrnod ar y safle - dysgu am gynefinoedd, y safle, y prosiect, casglu mes, a gweithgareddau. 1 diwrnod arall yn yr ysgol i hau'r mes a dysgu am gylch bywyd coeden dderw, coed derw enwog a gweithgareddau sy'n ymwneud â choed.

Gwanwyn: 1 diwrnod ar y safle ac yna 3 diwrnod mewn ysgolion - prosiect celf greadigol.

#### *Blwyddyn 2:*

Hydref: 1 diwrnod ar y safle - sgiliau byw'n wyllt, yn enwedig cynnau tân.

#### *Blwyddyn 3:*

Plannu'r coed derw maen nhw wedi'u tyfu o hadau.

*Arts Drop Natur:* mewn ymateb i'r anallu i groesawu grwpiau i'n safle yn ystod y pandemig, buom yn gweithio mewn partneriaeth â Arts Drop i greu gweithgareddau natur a chelf (gyda ffocws ar lesiant) a gyflwynwyd ar set o gardiau post ac a ddarparwyd am ddim gyda'r holl ddeunyddiau angenrheidiol mewn bag cotwm. Wedi'i ddarparu i 600 o blant o dri grŵp oedran.

### **Cynlluniau:**

I barhau'r cynllun ysgolion cynradd yn ei fformat bresennol.

## Cynllun Strategol 2021 - 2030

**5.2.** *Gwersylloedd gwyllt gyda rhaglenni profiad natur o sawl diwrnod ar y safle a gynigir i bobl ifanc o oedran ysgol uwchradd: sgiliau hynafol, arsylwi natur, ymwybyddiaeth ofalgar a gweithgareddau eraill. Cyflwynir gan yr elusen mewn partneriaeth â darparwyr gweithgareddau arbenigol. Cysylltiadau wedi'u creu gydag ysgolion uwchradd a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc.*

### **Statws Cyfredol:**

Yn 2019 cynhaliwyd 2 wersyll. Trefnwyd 6 gwerysll ar gyfer 2020 ond cafodd pob un ei ganslo oherwydd y pandemig. Mae gennym ni 6 gwerysll ar y gweill ar gyfer 2021.

Prif ddarparwr y gwerysll hyn yw Jane Robertson, gyda chefnogaeth cynorthwydd sydd â phrofiad tebyg o arwain gwerysll gwyllt a'r Arbenigwr Addysg o Goetir Anian. Darperir cludiant i'r safle gan y prosiect. Gellir cael rhaglen lawn o weithgareddau trwy gais.

Arts Drop Natur: mewn ymateb i'r anallu i groesawu grwpiau i leoli yn ystod y pandemig, buom yn gweithio mewn partneriaeth â Arts Drop i greu gweithgareddau natur a chelf (gyda ffocws ar lesiant) a gyflwynwyd ar set o gardiau post ac a ddarparwyd am ddim gyda yr holl ddeunyddiau angenrheidiol mewn bag cotwm. Wedi'i ddarparu i 600 o blant o dri grŵp oedran.

### **Cynlluniau:**

Parhau i gynnal 6 gwerysll ieuencid y flwyddyn yn y fformat cyfredol.

Rhaglen ychwanegol sy'n agored i gyn-fyfyrrwyr y gwerysll ieuencid, ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed - yn treiddio'n ddyfnach i fyw'n wyllt, crefftau, sgiliau hynafol, cysylltiad natur, ymwybyddiaeth ofalgar, ac ati. Wedi'i anelu at grwpiau o 15 o bobl gyda 10 diwrnod arfaethedig o wersylla'r flwyddyn dros gyfnod o 3 mlynedd yn ystod gwyliau ysgol a phenwythnosau. Prosiect yn darparu costau cludo i sicrhau cynwysoldeb.

**5.3.** *Bydd rhaglenni'n cael eu datblygu gyda phartneriaid ar gyfer oedolion o grwpiau penodol a fyddai'n cael budd arbennig o'n gwasanaeth: er enghraifft, pobl sy'n gwella ar ôl bod yn gaeth i alcohol/cyffuriau, ffoaduriaid, gofalwyr ifanc, pobl o ardaloedd difreintiedig. Ynghyd â digwyddiadau cymunedol lleol.*

### **Statws Cyfredol:**

Diwrnod Agored Blyneddol a gynhaliwyd yn 2018 a 2019.

Rhywfaint o ddefnydd o'r safle gan ddarparwyr eraill.

Diwrnodau Gwaith Gwirfoddolwyr - Eisoed yn cynnal 11 y flwyddyn ym Mwlch Corog, fel arfer ddydd Sadwrn olaf y mis. Cyflawni tasgau ar y tir e.e. tynnu ffensys, plannu coed, torri rhedyn, tasgau adeiladu ar doiled compost a sied.

## Cynllun Strategol 2021 - 2030

### Cynlluniau:

*Diwrnodau Gwaith Gwirfoddolwyr* - Parhau gyda'r fformat cyfredol. Bydd gweithgareddau'r dyfodol yn cynnwys adeiladu pont bren gron syml, mwy o blannu coed, torri mwy o redyn. Bydd rhwydweithio yn cynyddu gwybodaeth y cyhoedd am y dyddiau hyn, ynghyd ag atgyfeiriadau gan sefydliadau partner. Maent yn rhoi cyfle da i bobl sy'n cael trafferth gydag amrywiaeth o faterion iechyd meddwl fynd allan a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol.

Datblygu ein 'Rhaglenni Oedolion' ar gyfer grwpiau penodol a fyddai'n elwa o gysylltiad natur. Bydd y rhaglenni i gyd yn dilyn fformat tebyg, gyda gweithgareddau fel crefft, celf, tasgau cadwraeth, sgiliau byw'n wyllt a digon o amser i gysylltu o amgylch tân gwerysll. Cynigir diwrnodau sengl ynghyd â gwerysllloedd 5 niwrnod. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu prosiectau gyda'r grwpiau canlynol:

Grwpiau yng nghanolbarth Lloegr sy'n gweithio gyda cheiswyr lloches -

'City of Sanctuary' - Wolverhampton

Eglwys St Chad a St Mark - Wolverhampton

'Hope Projects' - Birmingham

Fforwm Cymunedol Penparcau - profiadau natur i bobl o ardal ddifreintiedig.

Credu - yn cefnogi gofalwyr ym Mhowys.

Camad - hwb ar gyfer gwirfoddoli yn ardal Machynlleth, wedi'i gysylltu â rhwydwaith o sefydliadau lleol.

Rekindle - Prosiect Camau Bach - gweithio gyda phobl ifanc sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl.

Changes UK - Cwmni Budd Cymunedol yn gweithio gyda phobl â phroblemau dibyniaeth.

Kaleidoscope - Elusen adfer dibyniaeth.

*Gwerysllloedd Byw yn Wyllt* - yn agored i'r cyhoedd, i'w rhedeg yn fasnachol.

*Digwyddiadau cymunedol a theuluol lleol:*

Parhau i gynnal diwrnod agored yn flynyddol.

Diwrnodau dathlu thema eraill, 5 y flwyddyn o'r rhestr hon:

Diwrnod Rhyngwladol Corws y Wawr

Diwrnod Rhyngwladol Amrywiaeth Fiolegol

Diwrnod Amgylchedd y Byd

Diwrnod Rhyngwladol y Gors

Diwrnod Gwenyn Mêl y Byd

Diwrnod Cynefin y Byd

Diwrnod Anialdir y Byd

Wythnos Genedlaethol Coed